



Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

[5962N60-1]

Arholiad Haf 2022

Uned 216	Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	Dydd Mawrth 7 Mehefin 2022
----------	--	-------------------------------

Gwybodaeth Ymlaen Llaw

Gwybodaeth gyffredinol i fyfyrwyr ac athrawon

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn rhoi ffocws i rywfaint o'r hyn y bydd papur arholiad Haf 2022 yn ei gynnwys.

Cwestiynau tariff uwch fydd dan sylw, yn bennaf, ond nid bob tro, yn y testunau a nodwyd.

Bydd cwestiynau am feysydd cynnwys eraill hefyd **sydd ddim** wedi'u nodi yn yr hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd yr addysgu a'r dysgu wedi ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfres arholiadau arall.

Bwriad y wybodaeth hon yw cefnogi'r broses o adolygu.

Gellir ei defnyddio ar unrhyw adeg o'r dyddiad y cafodd ei rhyddhau.

Ni ddylid mynd â'r wybodaeth hon i mewn i'r arholiad.

Nid yw strwythur y papur arholiad yn newid.

Gallwch chi ofyn i'ch athro am gyngor a thrafod yr hysbysiad hwn ag aelodau eraill eich dosbarth.

Gallwch chi ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael i chi i ymchwilio i'r testunau/themâu sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad hwn.

Rhyddhawyd: 4 Ebrill 2022

Meini Prawf Asesu	Meini Prawf Asesu	Ymhelaethiad o'r Cynnwys
2.1	Gweithgareddau chwaraeon a allai gefnogi iechyd a llesiant plant a phobl ifanc	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae amrywiaeth o amgylcheddau sy'n adlewyrchu fframweithiau cyfredol yn cefnogi datblygiad cyfannol.</p> <p>Amgylcheddau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymunedol • dan do • hamdden • awyr agored • chwaraeon <p>(Ymdrinnir ag un neu fwy o'r meysydd uchod yn y papur arholiad.)</p>
2.2	Ffactorau diogelwch i'w hystyried wrth gynllunio triplau gyda phlant	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall amrywiaeth o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gweithgareddau.</p> <p>Amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cost • gwydnwch • yr amgylchedd • cymarebau staff yn y lleoliad • gofynion o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (NMS) • asesu risg/diogelwch • addasrwydd – oedran/cyfnod datblygu/plant ag anghenion ychwanegol • cynaliadwyedd y gweithgaredd a'r adnoddau • technoleg • amlbwrpasedd <p>(Ymdrinnir ag un neu fwy o'r meysydd uchod yn y papur arholiad.)</p>
3.1	Mae safonau gofynnol cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i feithrinfeydd ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth ac effaith deddfwriaeth allweddol, rheoliadau, polisïau a mentrau llywodraeth cyfredol yng Nghymru ar ymarfer ym maes gofal plant.</p> <p>Rhaid ymdrin â'r ddeddfwriaeth allweddol, rheoliadau a mentrau cyfredol y llywodraeth canlynol yng Nghymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau'n Deg • Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 • Y safonau gofynnol cenedlaethol (NMS) <p>(Ymdrinnir ag un o'r meysydd uchod yn y papur arholiad.)</p>

4.1	Gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mathau o wasanaethau sydd ar gael i blant a'u teuluoedd/gofalwyr • rôl y gwahanol weithwyr/gweithwyr proffesiynol gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn y gwasanaethau • sut mae gwasanaethau gwahanol o fudd i blant (0-19) a'u teuluoedd/gofalwyr <p>Gwasanaethau iechyd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • proffesiynau iechyd cysylltiedig • CAMHS: (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed) • Canolfannau Iechyd <p>(Ymdrinnir ag un o'r meysydd uchod yn y papur arholiad.)</p>
4.2	Sut y gall tîm amlddisgyblaethol gydweithio i gefnogi plant a theuluoedd	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall rôl rhanddeiliaid allweddol o ran cefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw gydag amrywiaeth o gyflyrau a/neu anghenion ychwanegol.</p> <p>Dylai dysgwyr wybod a deall gwerth rhannu gofal, gofal amlasiantaethol a gofal amlddisgyblaethol i blant a'u teuluoedd/gofalwyr.</p>

Diwedd y wybodaeth ymlaen llaw